## ASTUDIAETH ACHOS

# PA BENDERFYNIADAU FYDDECH CHI'N EU GWNEUD FEL ARWEINYDD YN Y BYD?

Mwynhaodd y dysgwyr gaffael gwell dealltwriaeth o'r termau 'cynaliadwyedd' a 'datblygiad cynaliadwy'. Roedd gan y rhan fwyaf afael dda ar y termau hyn a gallent eu defnyddio'n gywir wrth siarad.

Roedd nifer y Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) ychydig yn frawychus iddynt ar y dechrau, ond fe wnaeth y gweithgaredd didoli eu helpu i ddechrau gwneud synnwyr o'u natur bellgyrhaeddol.

Fe wnaethom wahodd pobl i'r ysgol i gael eu cyfweld gan ddysgwyr, gan gynnwys cynghorydd lleol, rhywun o grŵp 'gwyrdd' sy'n gweithio ar lanhau afon leol a rheolwr allgymorth mewn diwydiant lleol mawr sy'n gwneud cynhyrchion silicon. Gofynnwyd i bob ymwelydd roi cyflwyniad byr yn nodi beth oedd eu rôl a sut roedd eu rôl yn gysylltiedig â chynaliadwyedd. Fe ysgrifennodd y dysgwyr rai cwestiynau hynod ddiddorol a'u gofyn i'r rhai oedd yn 'y gadair goch', gan gynnwys cwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar feysydd penodol, sef yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd. Roedd gan lawer ohonynt gwestiynau pellach defnyddiol i'w gofyn hefyd.



Yn yr awyr agored o fewn yr ardal leol, gwelwyd llawer o faterion oedd yn ymwneud â chynaliadwyedd, gan gynnwys sbwriel plastig, biniau yn gorlifo, llawer o geir ar y ffyrdd, tir gwastraff, llygredd mewn afon leol, ac ati.

Roedd gan y dysgwyr ddiddordeb mawr yn y syniad o ymgyrch i wella eu hardal leol. Ymunodd rhai â'r grŵp 'gwyrdd' lleol a helpu i glirio'r afon leol gyda'u rhieni; edrychodd eraill ar leoliadau a meintiau biniau sbwriel a chysylltu â'r cyngor lleol i gyfleu eu syniadau; dechreuodd rhai ymgyrch i gael pobl eraill i wneud mwy o ddefnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus, tra bu grŵp arall yn edrych ar wella ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff. Cynhyrchwyd arddangosfa ar gyfer neuadd yr ysgol, fel y gallai eraill yn yr ysgol weld eu hymgyrchoedd.



Roedd edrych ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy o safbwynt byd-eang yn dangos i ddysgwyr sut i gymryd safbwyntiau gwahanol yn well. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r gwaith roeddem wedi'i wneud ar gynefin ac roedd y dysgwyr yn awyddus i ddechrau partneriaeth ag ysgol arall. Llwyddwyd i sefydlu partneriaeth gydag ysgol yn Affrica. Mae'r bartneriaeth hon yn dal i fynd rhagddi, hyd yn oed ar ôl i'r dysgwyr symud ymlaen i'w hysgol newydd.